Datblygu Celfyddyd Gyhoeddus

Crynodeb o'r ymgynghoriad a'n hymateb

Rhagfyr 2011

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Datblygu Celfyddyd Gyhoeddus
Crynodeb o'r ymgynghoriad a'n hymateb

Cyflwyniad

Drwy'n Hadolygiad Buddsoddi ymrwymasom i archwilio model newydd o ddarparu'r rhaglen breswyl a gynaliasid drwy Gywaith Cymru ac wedyn drwy Safle, cyn-asiantaeth celfyddyd gyhoeddus Cymru. Datganasom hefyd ein hymrwymiad i ddarparu llwyfan i eiriol dros yr ymarfer gorau wrth gomisiynu celfyddyd gyhoeddus.

Yn yr ymgynghoriad hwn, canolbwyntiem ar dri maes o weithgarwch a gynigiwyd yma

Preswylfeydd
Eiriolaeth/Ymchwil
Comisiynu

Hoffem esgor ar drafodaeth agored yn hytrach na chyflwyno i'r sector set o gwestiynau penodol. Amlinellwyd y meysydd allweddol hyn yn y ddogfen *Adnewyddu a thrawsnewid* ac maent yn gysylltiedig â chanlyniadau'r Adolygiad Buddsoddi lle dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:

- *"**rhoi ffocws newydd i raglen breswyl yr artistiaid** – cymerwn y rhaglen yn ôl dan ein hadain a'i chynnal yn 2011-14 drwy'r trefniadau â'n rhwydwaith o orielau a lleoliadau"*

- *"**eiriol dros werth celfyddyd gyhoeddus a'i esbonio** – gweithiwn ag awdurdodau lleol i hybu ac eiriol dros ystod eang o weithgarwch. Mae gennym strwythurau sefydlog i gydlynu a chynllunio ar y cyd ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Cynhwyswn hefyd borthol newydd ar ein gwefan i wybodaeth ac ymarfer da"*

- *"**broceru cyfleoedd newydd** – i sicrhau mai ochr yn ochr â phrosiectau newydd y tyf corff newydd o bobl wybodus ar eu liwt eu hunain yng Nghymru"*

- *"**annog cydweithio creadigol** ym meysydd y celfyddydau gweledol a chymwys, pensaernïaeth, dylunio a'r amgylchedd"*

Cynaliasom dri chyfarfod ymhob un o'r rhanbarthau yn ystod yr ymgynghoriad; daeth llawer iddynt a chafwyd trafodaethau difyr.

Ar ôl yr adolygiad buddsoddi, yn gynnar yn ein hystyriaethau, gwnaethom ymchwil i fodelau darparu eiriolaeth ac ymchwil yn y maes. Wedyn cawsom drafodaethau ag ixia, melin drafod Brydeinig celfyddyd gyhoeddus ym

Mirmingham. Penderfynasom wahodd Prif Weithredwr ixia, Jonathan Banks, i gyflwyno eu gwaith mewn tri chyfarfod ymgynghori. Pwrpas hyn oedd trafod y cwmni a rhoi'r cyd-destun ehangach a sut y mae ymarfer yn newid yn y maes ac felly eiriolaeth a'i pherthnasedd i Gymru.

Yn Nhachwedd cymeradwyodd y Cyngor y ffordd hon ymlaen i ddatblygu celfyddyd gyhoeddus a roes y sylfaen i ddogfen fframwaith yr ymgynghorasom arni.

Erbyn diwedd y cyfnod hwnnw ar 3 Mawrth 2011 cawsom ymateb i'r ymgynghoriad gan 25 o bobl.

25 a gyfrannodd yn ysgrifenedig:

Sefydliadau Refeniw (2010/11)	2
Sefydliadau eraill	3
Unigolion	13
Awdurdodau Lleol	6

Daeth 75 o bobl i'r cyfarfodydd ymgynghori a chynhaliwyd hwy ym mhob rhanbarth. O'r 75, cyflwynodd14 ymateb ysgrifenedig.

Data o'r cyfarfodydd	Aberystwyth	Caerdydd	Llandudno	Cyfanswm
Sefydliadau Refeniw (2010/11)	1	3	4	8
Sefydliadau eraill	2	9	4	15
Awdurdodau Lleol	1	8	3	12
Unigolion	9	17	6	32
Staff	1	5	2	8
Cyfanswm	14	42	19	75

Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd.

Crynodeb sydd yma o ganfyddiadau'r ymgynghoriad ac amlinelliad hefyd o'r prif faterion, themâu a syniadau a ddaeth yn yr ymatebion a'r adborth o'r sesiynau gyda'n hymatebion ni iddynt. Mae'n arweiniad hefyd i'r cam datblygu nesaf.

Yn yr ymatebion a'r adborth roedd materion penodol am dri maes y rhaglen a datblygir y rhain yn nes ymlaen yn y ddogfen hon. Ond roedd hefyd faterion mwy cyffredinol.

Roedd ar yr ymatebwyr angen rhagor o eglurhad am ddiffiniadau'r tri maes yn y ddogfen: celfyddyd gyhoeddus; preswylfeydd; comisiynu. Bwriadwn goethi ar y diffiniadau hynny fel y datblygwn y rhaglen.

Teimlai ymatebwyr mai diangen oedd gwahanu rhwng preswylfeydd a chomisiynu a bod angen esbonio'r rhesymeg am hyn. Cydnabyddwn fod gorgyffwrdd posibl rhwng y ddau faes ac weithiau yn ddiweddar arweiniodd gwaith preswyl at gomisiynau ond yn ein barn mae angen canolbwyntio ar hyn o bryd ar y rhaglen breswyl.

Codwyd nifer o faterion trosfwaol o ran darparu'r rhaglen. Daeth y rheini i'r amlwg yn glir iawn o bob un o'r trafodaethau rhanbarthol a'r adborth. Canolbwyntiai'r trafodaethau ar y canfyddiad bod adnoddau dynol ac ariannol yn gyfyngedig:

- rheolaeth fewnol y rhaglen a gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol
- y canfyddiad y gall cyllid cyfyngedig olygu diffyg ymrwymiad neu ddisgwyliadau afrealistig

Cydnabyddwn y materion hyn ac maent yn ganolog i'n hystyriaethau. Parhawn i'w trafod yn fewnol er mwyn adnabod y lefel briodol o adnoddau angenrheidiol i'r rhaglen. Parhawn i roi sylw i hyn wrth lunio canllawiau'r rhaglen breswyl a chreu'r porthol.

Crynodeb o'r ymatebion i feysydd allweddol y fframwaith

1. Ffocws arall i raglen breswyl yr artistiaid

Cymerwn hon yn ôl i fod yn rhywbeth mewnol a'i darparu yn y cyfnod 2011-14 drwy drefniadau â'n rhwydwaith o orielau a lleoliadau (Adnewyddu a thrawsnewid).

Cadarnhaol oedd yr ymateb cyffredinol i'r cynigion a mynegodd y rhan fwyaf gefnogaeth gan groesawu'r agwedd strategol a chyson ar y cynigion. Er bod ymateb cadarnhaol cyffredinol i feysydd preswyl sef pobl, syniadau a lle, codwyd materion am yr amserlen a welid yn rhy gyfyng mewn termau artistig ac o ran darparu.

Teimlai'r rhan fwyaf na thrinnid y preswylfeydd yn briodol yn y model arfaethedig a'r perygl fyddai na chefnogid yr artistiaid yn ddigonol. Ond ar y llaw arall roedd nifer bach o'r farn y gellid cefnogi artistiaid mewn ffyrdd eraill yn hytrach na'u rheoli'n draddodiadol.

Roedd cefnogaeth gref i'r ffordd bartneriaethol o fynd ati ond teimlai rhai y dylasai fod wedi cynnwys rhai megis therapi celfyddydol a threftadaeth ymhlith y partneriaid enghreifftiol yn y ddogfen.

Mater arall a godwyd oedd y broses ddethol, o'r partneriaethau i'r artistiaid.

"Yn gyffredinol teimlaf fod y cynigion a'r ddogfen yn arloesol a chadarnhaol. Pe gweithredid hyn yn iawn, ychwanegai at gyfleoedd i artistiaid a'r cyhoedd, a gallai gysylltu artistiaid â'i gilydd yn well ac esgor ar well gwaith o bosibl."

"Ond ni sonnir am yr angen am ragor o weithwyr i gynnal y strategaethau hyn. O ran codi ymwybyddiaeth am gelfyddyd gyhoeddus, gwnaed y cyfan bron (y gwych, y gwachul a chanol y ffordd) gan staff Safle tan yn ddiweddar iawn. Ac anodd yw gweld sut y gall y Cyngor wneud yr holl waith yn fewnol heb gynyddu ei staff."

"Yn y syniad o ddatblygu tri maes sy'n cysylltu â'i gilydd i roi cyd-destun i'r rhaglen mae fframwaith pwyllog a chadarn i sbarduno cynigion dychmyglon i artistiaid a chomisiynwyr a all arwain at cydweithrediadau a chanlyniadau arloesol."

"Roedd gwahaniad pendant yn y tri maes hyn. Mae'n bwysig cofio bod cysylltiad cynhenid rhwng y tri. Yn gyffredinol caiff y rhaglen fudd o gydnabod nad oes ffiniau clir rhwng y meysydd gan ddisgwyl gorgyffwrdd."

"Aneglur yw'r broses ddethol i gael preswylfa ac arian cyfalaf ac yn ystod y rownd gyntaf yn enwedig mae'n bwysig bod y broses mor dryloyw â phosibl a bod y canllawiau wedi'u datblygu'n dda a'u cyfathrebu â'r rhai sy'n gweithio yn y sector."

Ein hymateb:
Nodwn y materion hyn a chydnabod yr angen i fod yn hyblyg gyda'r meysydd. Sicrhawn yr adlewyrchir yr hyblygrwydd hwn yn ein canllawiau terfynol.

Credwn yn gryf y bydd angen yn y model newydd i'r clystyrau partneriaeth brofi eu cefnogaeth i artistiaid drwy'r broses. Mae hyn yn ganolog i'n syniadau a rhaid ei weld yn ethos y partneriaethau.

Ymrwymwn i ddatblygu ystod amrywiol o bartneriaethau a chynhwyswn yn y ddogfen gategorïau eraill o rai posibl.

Yn y flwyddyn beilot gychwynnol, arweinia Uwch Swyddogion Celfyddydau Gweledol a Chymwys y Cyngor wrth nodi a broceru partneriaethau a fydd yn rhan o flwyddyn gyntaf y rhaglen. Yna bydd y broses ddethol yn unol â chanllawiau a ddatblygir ac a brofir wedyn.

2. Eiriol dros werth celfyddyd gyhoeddus a'i esbonio

"Gweithiwn ag awdurdodau lleol i hybu ystod eang o weithgarwch ac eiriol drostynt. Mae gennym strwythurau sefydlog i gydlynu a chynllunio ar y cyd ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Cynhwyswn hefyd borthol newydd ar ein gwefan i wybodaeth ac ymarfer da." (Adnewyddu a thrawsnewid)

Yn gyffredinol, roedd pryder mawr am y bwlch a arhosai ar ôl dirwyn i ben Safle, ganolbwynt yr eiriol. Yn ei dro daeth cwestiwn o bwy a arweiniai'r maes a sut y gwneid hyn. Teimlai ymatebwyr fod diffyg eglurdeb am yr adnoddau staffio yn y ddogfen.

Yn gyffredinol roedd ymateb cadarnhaol cryf i gyflwyniad Jonathan Banks o ixia a soniodd am y cyd-destun ehangach a model darparu eiriolaeth ac ymchwil. Gwelwyd perthnasedd y gwaith hwn i Gymru; ond roedd petruso clir am y cwestiwn a allai ixia fod yn gyfforddus yng nghyd-destun Cymru.

O ran y porthol roedd cefnogaeth gref am ymarfer mapio i gael hyd i fannau oer/poeth, ymchwil/nodi/diffinio modelau o'r ymarfer gorau yng Nghymru a dueddai'r cyfan i ddweud na fu hyn wedi'i ffurfio'n ddiweddar a'i roi yn llygad y cyhoedd

Soniodd amryw am yr angen i atynnu artistiaid newydd i greu celfyddyd gyhoeddus drwy raglen o eiriolaeth a Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gododd y cwestiwn o bwy a'i darparai.

"Yn Hydref 2010 caewyd Safle, y sefydliad strategol i gelfyddyd gyhoeddus Cymru yn rhannol wedi'i ariannu gan y Cyngor, a chodwyd pryder y diflannai'r agwedd hon ar y celfyddydau heb gorff i'w chynnal ac mewn cystadleuaeth â grwpiau lobïo cryfach."

"Mae diffyg clir mewn adnoddau staffio, ariannol ac arbenigol yn codi cwestiwn am y gallu i wneud y gwaith."

"Mae pryder y mabwysiadir gwefan ixia yn ei chyfanrwydd yn hytrach na datblygu rhywbeth penodol i Gymru."

"Croesawn yr awgrym y gall ixia gynnwys Cymru yn ei gweithgarwch a'r gwaith ar draws y sectorau. Dibynna ixia ar bobl ar eu liwt eu hunain o'r sector beth bynnag i'w chynghori a gellid croesawu hyn os cynhwysir arbenigedd Cymru."

"O ran y wefan mae gan y Cyngor hanes hir o ariannu celfyddyd gyhoeddus a phreswylfeydd Cymru. Mae gennych bentwr anferth o ddeunydd ysgrifenedig a gweledol y gellid ei fapio a'i ddefnyddio i greu astudiaethau achos enghreifftiol iddynt fod yn adnoddau ar-lein."

Ein hymateb:
Ymrwymwn i ddatblygu adnoddau ar-lein i eiriol ond cydnabyddwn hefyd fod cyfyngiadau ar yr adnoddau i ddatblygu partneriaethau allweddol a chydweithio'n agos â rhanddeiliaid i fwyafu cyfnewid a throsglwyddo gwybodaeth.

Yn sicr hoffwn ddatblygu partneriaeth ag ixia sy'n cynnwys arbenigedd perthnasol Cymru a datblygu mecanwaith i alluogi twf y sector yng Nghymru. Bydd datblygu'r porthol yn arf a chatalydd allweddol i ledaenu gwybodaeth yn ehangach.

Gwnawn ymarfer mapio cychwynnol gydag ixia ac ymgynghorydd celfyddyd gyhoeddus o Gymru. Casglwn y dystiolaeth a defnyddiwn y canlyniadau i froceru a hwyluso cysylltiadau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi dynodi amser uwch swyddog i arwain a chyllideb ddatblygu o £30,000 yn 2011-12 i sefydlu adnoddau ar y we a gweithgarwch eiriolaeth a lledaenu.

Cydnabyddwn yr angen i feithrin a datblygu artistiaid newydd ym maes celfyddyd gyhoeddus ac ymdrechwn greu'r hinsawdd gywir i gynyddu cyfleoedd. Cychwynnwn ddarparu seminarau a digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus i artistiaid a bod yn bartner ynddynt.

3. *Broceru cyfleoedd newydd – i sicrhau mai ochr yn ochr â phrosiectau newydd y tyf corff newydd o bobl wybodus ar eu liwt eu hunain yng Nghymru* (Adnewyddu a thrawsnewid)
Annog cydweithio creadigol ym meysydd y celfyddydau gweledol a chymwys, pensaernïaeth, dylunio a'r amgylchedd (Adnewyddu a thrawsnewid)

Teimlid yn gyffredinol na ddatblygwyd comisiynu gymaint ag eiriolaeth a phreswylfeydd yn y ddogfen.

Tynnwyd sylw at faterion rheoli prosiect ac adnoddau ariannol sy'n berthnasol i breswylfeydd a chomisiynu.

Gofynnodd rhai sut yr eiriolai'r Cyngor dros gomisiynu celfyddyd gyhoeddus yn ystyrlon a chynaliadwy.

"Ni ddatblygwyd canllawiau a threfniadau comisiynu yn y ddogfen i'r un graddau â'r rhaglen breswyl. Ond hefyd rhaid ystyried creu celfweithiau dros dro a pharhaol gan artistiaid gweledol a chymwys a'r ymwneud a'r trafod a ddaw yn sgil hyn yn rhan o'r fframwaith strategol i ddatblygu celfyddyd gyhoeddus Cymru."

"Nid yw'n glir a ystyria'r Cyngor ei fod yng nghanol y perthynasau hyn a sut y gallai fod yn 'rhagweithiol wrth chwilio am bartneriaethau newydd a nodi cyfleoedd newydd'."

"Nid yw'n glir yn y trefniadau newydd hyn pwy sy'n ymgymryd â'r gwaith eiriol i berswadio awdurdodau lleol i weithredu strategaethau celfyddyd gyhoeddus yn eu rheoliadau cynllunio."

"Mae angen sicrhau y buddsoddir adnoddau'n effeithiol a chynaliadwy gan chwilio am bartneriaethau ariannu i uwchraddio prosiectau a chynyddu ansawdd ac ystod eu cynnyrch a'u hallbynnau."

"Deallwn nad oes gan y Cyngor y cynhwysedd i ymwneud â gweithgarwch celfyddydol. Mae'n bosibl hefyd na ddymunai ymgymryd â hyn ac o bosibl nad oes neb wedi'i wahodd i'w wneud ychwaith. Ond rhaid datblygu ei swyddogaeth i arwain yn y maes a hynny ar fyrder."

Ein hymateb:

Mae arnom angen bod yn realistig a chydnabod bod angen model newydd sy'n hybu ffordd fwy lluosog o eiriol a lledaenu'r ymarfer gorau ym maes comisiynu.

Cydnabyddwn yr angen i ddarparu llwyfan i reolwyr prosiect Cymru sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain a sicrhau y diwellir yr angen hwn yn yr adnoddau ar-lein newydd.

Gweithiwn yn fewnol i ddatblygu ffordd fwy rhagweithiol a chyfannol o annog nifer bach o gomisiynau enghreifftiol o gelfyddyd gyhoeddus. Ymrwymwn i ddatblygu ffordd fwy cydlynus rhwng cefnogi comisiynau drwy'n rhaglen gyfalaf pan ddaw ei strategaeth newydd i rym a'r rhaglen breswyl newydd. Cydnabyddwn wrth gwrs y gall cyfleoedd am gomisiynau posibl godi mewn cyd-destunau masnachol a chyhoeddus eraill. Yn gyntaf cyfeiriwn unrhyw ddiddordeb at yr adnoddau ar-lein a ddatblygwn.

4. Mae ymgynghori a gwerthuso *yn hanfodol dros y tair blynedd. Yn hytrach na chael yr ymgynghoriad ar wahân, credwn ei bod yn fwy ystyrlon i'w gyfuno â'r brif raglen o weithgarwch â ffocws penodol ar y flwyddyn gyntaf (dogfen ymgynghorol ar gelfyddyd gyhoeddus).*

Cynigiasom na ddylid ystyried ymgynghori a gwerthuso parhaus y rhaglen a'r strwythur yn ychwanegiad ac y dylid eu sefydlu'n rhan o'r flwyddyn beilot. Roedd croeso cyffredinol i hyn ac ystyrid ei fod yn fodel ymarfer cymeradwy.

Cynigiasom greu grŵp ymgynghorol i hwyluso'r ymgynghori/gwerthuso a datblygu'r rhaglen. Eto roedd croeso i hyn; ond gofynnwyd am eglurhad am gylch gorchwyl y grŵp.

Yn fwy na hynny gofynnwyd am eglurhad pellach am fecanwaith y gwerthuso ac am ganllawiau clir. Cwestiwn allweddol oedd pwy a werthusa a pha beth a werthusir. Ai datblygiad strwythur y rhaglen neu brosiectau unigol?

"Cytunwn fod eiriolaeth, ymchwil a strategaethau ar eu mwyaf defnyddiol pan ddigwyddant mewn ymarfer ac yn brosesau myfyrgar a gweithredol sy'n rhan o ymgynghori a gwerthuso."

"Cred y Cyngor yn gymeradwy ddigon fod ymgynghori a gwerthuso yn arf hanfodol o ran iechyd a lles y sector. Sieryd am grŵp ymgynghorol ac os bydd ganddo statws dilys yn y Cyngor a'r sector ac os gall fod yn fforwm am ddialog ac eiriolaeth, bydd ganddo bosibiliadau a dylanwad sylweddol."

"Hoffwn weld yn y ddogfen fwy o eglurdeb am bwrpas a ffurf y gwerthusiad. Fel y mae, mae'r ddogfen yn drysu neu gymysgu gwerthuso'r broses o ddatblygu celfyddyd gyhoeddus a gwerthuso prosiectau celfyddyd gyhoeddus."

Ein hymateb:
Rydym yn hyderus y bydd cynnwys yr ymgynghori/gwerthuso yn natblygiad strwythur y rhaglen yn ein galluogi i gadw cyfeiriad a chyfathrebu clir. Digwydd hyn drwy'r grŵp ymgynghorol a'r porthol a'r digwyddiadau a symposia arfaethedig ym maes datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae ffurfio'r grŵp ymgynghorol yn rhan o'r cam nesaf Lluniwn ein cylch gorchwyl â'r bwriad o sefydlu grŵp ymgynghorol wedi'i recriwtio mewn modd atebol yn y misoedd i ddod.

Cydnabyddwn fod gwerthuso prosiectau'n hanfodol a bod angen cynnwys hyn yn natblygiad y prosiect o'r cychwyn yn deg. Archwiliwn y posibiliadau o gael partner ym maes Addysg Uwch sydd â diddordeb mewn modelau ymchwil i werthuso effaith gyhoeddus y gelfyddyd.

5. Argymhellion am y cam nesaf yn natblygiad y rhaglen

- Comisiynu'r ymarfer mapio mewn ymateb i'r galwadau yn yr ymgynghoriad; yn arwyddocaol ddigon, gwelir hyn yn fwlch sydd angen ei lenwi i borthi rhagor o waith. Ar hyn o bryd nid oes cyfeiriadur wedi'i adael gan yr asiantaethau a fu'n gweithio yn y maes; yn enwedig gyda'r holl newid yn y sector cyhoeddus, mae eisiau sefydlu sail wybodaeth yn y cyd-destun presennol
- Cytuno ar delerau bartneriaeth gychwynnol ag ixia i ddatblygu fframwaith eiriolaeth a sut y gweithia hyn yng Nghymru
- Datblygu'r fframwaith am y porthol yn fewnol
- Cytuno ar yr amserlen gyffredinol am y flwyddyn beilot a cherrig milltir
- Sefydlu'r mecanwaith mewnol i ddarparu'r rhaglen yn y flwyddyn gyntaf
- Parhau i ymchwilio a sefydlu'r clystyrau partner cychwynnol i lansio'r rhaglen
- Creu canllawiau am y rhaglen breswyl
- Sefydlu'r grŵp ymgynghorol
- Cytuno ar amser i lansio'r rhaglen
- Cyflawni'r casgliad cyntaf o brosiectau, gan drosoli i mewn cyfraniadau partneriaid
- Pennu amserlen am y symposiwm cyntaf

Ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Lynne Denman
Cyngor Gwynedd
Rachel Rosen
Theatr Bara Caws
Elbow Room
Rhondda Cynon Taf
Chris Coppock
Cyngor Sir Gâr
Brenda Oakes
engage Cymru
Emma Geliot
Patricia Aithie
Nia Roberts
Shelagh Hourahane
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Bro Morgannwg
Wiard Sterk
Clwyd Theatr Cymru
Cyngor Sir Powys
Sarah Pace a Tracy Simpson
Aelodau o Bwyllgor Rhanbarthol y De
Catrin Cooke
Polly Mason, aelod o Grŵp Celfyddyd Gyhoeddus Caerfyrddin a gwirfoddolwraig yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol
Ffion Lloyd, Pennaeth Dysgu Parhaus a Hamdden